



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

GENETEG
GENETICS

CYNGOR CRYNO WRTH BRYNU HYRDDOD

- 1 Gosodwch amcanion bridio wnaiff optimeiddio proffidioldeb eich diadell. Siaradwch gyda'r bridwr hyrddod am eich anghenion.
- 2 Dewiswch hyrddod gyda'r gwerthoedd EBV perthnasol er mwyn cwrdd â'r amcanion hyn.
- 3 Ewch draw i wefan Signet (www.signetdata.com) i weld gwerthoedd bridio diweddaraf yr hwrdd. Cymharwch werthoedd EBV yr hwrdd yn erbyn meincnod y brîd er mwyn darganfod eu cryfderau a'u gwendidau.
- 4 Cofiwch fod modd cymharu gwerthoedd EBV rhwng diadelloedd, ond nid rhwng bridiau.
- 5 Prynwch yn fuan er mwyn sicrhau dewis eang o hyrddod wedi eu cofnodi.
- 6 Mae'n talu i fuddsoddi. Gall y gwahaniaeth rhwng hwrdd cyfartalog ac un gyda gwerthoedd EBV uchel fod werth £800 yn ystod ei fywyd.
- 7 Edrychwch ar ôl iechyd ac anghenion maeth eich hwrdd i sicrhau y caiff fywyd hir a cynhyrchiol.

Gwybodaeth wedi ei gyflwyno gan Samuel Boon, AHDB-Signet

Signet 
BREEDING SERVICES




Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government




Hwrdd Mynydd Cymraeg A – Cyfartaledd y brîd

Analysis date: 09/06/2023



Hwrdd Mynydd Cymraeg B – 10% Uchaf y brîd

Analysis date: 09/06/2023



Mae mynegai'r ucheldir yn cynrychioli gwerth economeg teilyngdod genetig pob hwrdd ar gyfer nodweddion sydd yn dylanwadu ar berfformiad y famog. Gweler y gwahaniaeth mewn perfformiad a ragwelir rhwng y ddau hwrdd hyn. Mae Hwrdd A yn gyfartalog ar gyfer y brîd ac mae ganddo fynegai o £2.44, tra bod Hwrdd B o fewn y 10% uchaf o'r brîd gyda mynegai o £12.47, gwahaniaeth o dros £10.

Bydd hanner eu geneteg yn cael ei etifeddu gan eu hepil, felly byddwch yn rhagweld fod merch hwrdd B yn cynhyrchu £5/flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer pob blwyddyn maent o fewn y ddiadell.

Mae'r gwerthoedd bridio yn awgrymu bydd merched Hwrdd B yn magu mwy o wŷn, fydd yn tyfu'n gynt a gyda gwell cydffurfiad corff o'i gymharu a merched i Hwrdd A.